

Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth o dan categorïau Da Byw o fewn y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Derbyniodd 3 o unigolion gymorth drwy Categorïau Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 2 grŵp gymorth drwy Categorïau Da Byw y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnes yn ymwneud â darpariaeth y Gwasanaeth Cyngori:

“Cawsom gyngor gwych.”

“Roedd ein cyngorydd yn wych, yn llawn gwybodaeth, a chymrodd amser i ddeall ein gofynion. Rydym ni'n hapus iawn gyda'r canlyniadau hyd yma”.

Y Rhwydwaith Arddangos

Gwella ffrwythlondeb mewn buches sy'n lloia mewn dau floc


Dechreuodd tymor lloia'r gwanwyn ar 23 Chwefror 2020 gan ddod i ben ar 22 Mai 2020. Roedd 81% o'r fuches wedi lloia yn ystod yr wyth wythnos gyntaf gan alluogi'r fferm i werthu'r wyth buwch a oedd yn hwyr yn lloia er mwyn tynhau'r cyfnod lloia erbyn y flwyddyn nesaf. Mae monitro iechyd wedi bod yn elfen allweddol yn ystod y cyfnod lloia:

- Roedd samplau gwaed a gymerwyd cyn lloia yn dangos bod yr ychwanegion elfennau hybrin yn addas ar gyfer y fuches
- Roedd y 'Metricheck' ar ôl lloia yn dangos lefelau isel o'r haint bacterol, endometritis.

Ar ôl lloia, rhoddwyd pwyslais ar ganfod pan fo buchod yn gofyn tarw er mwyn sicrhau eu bod yn beichiogi. Mae fferm Nantglas wedi defnyddio coleri Alta sy'n canfod newidiadau mewn gweithgaredd ac yn anfon hysbysiad at ffonau symudol neu dabled. Mae'r dangosfwrdd isod yn dangos sut mae'r wybodaeth yn cael ei chyfleu i'r ffermwr:



Dangosfwrdd coleri Alta




Buches odro Nantglas gyda phaent ar eu cyngonau i gynorthwyo i adnabod pan fo buchod yn gofyn tarw.

Gyda chynghor ac arweiniad gan y milfeddyg, crëwyd cynllun bridio i sicrhau bod y patrwm lloia yn aros mor dynn â phosibl. Cafodd yr heffrod eu cydamseru gyda brechlynau prostaglandin a rhoddwyd paent ar eu cynffonau i helpu i adnabod pan fo buwch yn gofyn tarw. Dechreuwyd rhoi AI ar 20 Mai ac roedd 92% o'r anifeiliaid wedi cael AI o fewn y 3 wythnos cyntaf. Bydd sganion'n cadarnhau'r gyfradd lwyddiant.

Rhoi atchwanegion elfennau hybrin er mwyn gwella tyfiant ŵyn

Bu'r prosiect ar fferm Pentre, Llansoe, Brynbuga, yn edrych ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ariannol tri dull gwahanol o roi atchwanegion elfennau hybrin, sef drensh mwynat a dau wahanol fath o folws gan wahanol wneuthurwyr.

Cynnydd Pwysau Byw Dyddiol ar Gyfartaledd (g/dydd)



Cynnydd pwysau byw dyddiol ar gyfartaledd (fesul gram/dydd) ar gyfer pob dull o roi atchwanegion ar fferm Pentre

Mae'n ddiddorol nodi bod y cyfraddau twf wedi gostwng yn sylweddol yn ystod ail ran y prosiect (o gofio nad oedd unrhyw ddiffygion elfennau hybrin amlwg). Byddem yn cymryd bod hyn o ganlyniad i ostyngiad yn ansawdd y glaswellt.

Ar draws y prosiect, roedd y grŵp bolws Downland (bar glas) wedi perfformio'n well na'r grwpiau eraill yn gyson, gyda DLWG cyfartalog o 130g/dydd. Erbyn diwedd y prosiect, roedd ŵyn ô'r grŵp yma yn 1.2kg yn drymach ar gyfartaledd nag ŵyn yn y grwpiau eraill. Yn seiliedig ar bris cyfartalog o 220.4c/kg ar gyfer ŵyn o'r tymor blaenorol wedi'u pesgi ar ddiwedd Ionawr 2019, roedden nhw'n werth £2.64 y pen yn ychwanegol.

Technoleg	Dull o roi atchwanegion		
	Drensh Mwynau AllVit	Bolws Ŵyn Downland Essential	Bolws Tracesure
Technoleg	Amsugniad	Erydiad (2)	Trwytholchi
Pris fesul oen ar gyfer y prosiect cyfan	7.2c	53c	85c
Cyfanswm DLWG (g/dydd)	116	129	115
Marwolaethau yn ystod y prosiect	1	4	2

Grwpiau Trafod

Dyma'r cyfarfod digidol cyntaf ar gyfer grŵp trafod Honddu Veterinary, gyda Rosie Gibson o Bractis Milfeddygol Honddu fel siaradwr gwadd, a fu'n trafod ffrwythlondeb hyrddod a chyfrif wyau ysgarthol.

Bu Rosie yn trafod:

- Hyrddod cymell – mae defnyddio hyrddod cymell yn byrhau'r cyfnod ŵyna mewn ffordd naturiol.
- Profion FEC – mae hyn yn bwysig er mwyn canfod a oes gennych gyfrif wyau ysgarthol digon uchel i gyfiawnhau triniaeth, ac yna i ganfod a yw'r driniaeth wedi llwyddo neu a oes ymwrthedd o fewn y ddiadell.
- Cyfraddau twf ŵyn – mae'r rhain yn ddangosyddion effeithiol i weld a oes unrhyw broblem a fyddai'n effeithio ar gynnydd pwysau e.e. baich llyngyr, straen megis diddyfnu a thrin, newid i'r porthiant.
- Rheoli diddyfnu – gall diddyfnu achosi straen, felly bu Rosie yn annog aelodau i beidio â gwneud unrhyw beth arall i'r ŵyn ar yr un diwrnod, ac yn hytrach, y dylid eu dychwelyd yn ôl i'r un cae er mwyn lleihau lefelau straen. Bu hefyd yn argymhell y dylid diddyfnu i grwpiau yn ôl pwysau er mwyn hwyluso rheolaeth.

Yn dilyn y cyfarfod, cafodd aelodau'r grŵp gynig clinig iechyd anifeiliaid i brofi am unrhyw broblemau a allai effeithio ar berfformiad y ddiadell.

Gwella cyfraddau beichiogi mewn wŷn benyw ar safle arddangos Halghton Hall

Prif nod y prosiect ar fferm Halghton Hall oedd gwella cyfraddau beichiogi ymysg wŷn benyw o 57% i >75%. Roedd y canlyniadau sganio ym mis Ionawr yn rhagweld 126 oen sengl, 36 set o efeiliaid a 2 set o dripledi. Roedd perfformiad cyffredinol yr wŷn benyw yn ardderchog yn ystod y cyfnod wŷna heb lawer o broblemau sylweddol.

Fel sy'n gyffredin ym mhob system wŷna, cafwyd rhai colledion. Fe wnaeth 4 oen benyw ail-amsugno eu hŵyn (3 unigol ac 1 gefeiliaid ac ni wnaeth y rhain wŷna. Collwyd wŷn dau oen benyw a oedd yn cario wŷn unigol ar enedigaeth, ond roedd gan y ddwy ddigonedd o laeth, felly fe wnaethon nhw fagu wŷn cyfnewid. Collwyd oen un oen benyw a oedd yn cario oen unigol, ac nid oedd ganddi laeth.

Cafwyd achosion o fwrw'r llawes mewn 3 oen benyw ar ôl wŷna. Derbyniodd pob un ohonynt driniaeth yn unol â chynghor milfeddygol, a bydd y rhain yn cael eu difa o'r ddiadell i osgoi problemau tebyg yn y dyfodol.

Perfformiad hyd at 14 Mai 2020:

- 164 o wŷn benyw wedi cael eu sganio'n feichiog
- 160 o wŷn benyw wedi dod ag wŷn
- 159 o wŷn benyw yn magu oen ar hyn o bryd (naill ai ei hoen hi neu oen cyfnewid)
- Pwysau cyfartalog wŷn benyw – 58lg (rhwyng 56-61kg)
- Pwysau cyfartalog wŷn yr wŷn benyw (rhwyng 14-23kg)
- Yr oedran cyfartalog mewn dyddiau ar 14 Mai 2020 – 43 diwrnod
- Gan amcangyfrif pwysau geni o 3.5kg, amcangyfrifir DLWG ar >0.4kg y dydd



Wŷn benyw ar fferm Halghton Hall

EIP

22 O BROSIECTAU YN YMWNEUD Â DA BYW WEDI'U CYMERADWYO

yn gweithio gyda




133 O FFERMWYR A CHOEDWIGWYR



Gweithredu rheolaeth ar lefel uwch ar faethiad yn y diwydiant defaid yng Nghymru

Roedd astudiaeth newydd gyda grŵp o ffermwyr a choedwigwyr yng nngogledd Cymru yn canolbwyntio ar fonitro manwl er mwyn darparu sylfaen ar gyfer penderfyniadau'n ymwneud â maeth mamogiaid bridio. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd, roedd modd datblygu cynghor wedi'i deilwra ar gyfer pob diadell, a oedd hefyd yn ymateb i ffactorau eraill gan gynnwys argaeledd porthiant ac amodau'r tywydd.



Gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i ddefnyddio'r dull manwl hwn:

- Mae sgorio cyflwr corff yn ffordd effeithiol o fonitro iechyd y famog.
- Mae sganio yn adnodd pwysig er mwyn dangos y cnwd wŷn posibl o fewn y ddiadell. Os nad yw'r cnwd wŷn yn cael ei gyflawni, mae angen ymchwilio i'r rhesymau pam.
- Gellir hwyluso'r broses o gynllunio maeth drwy samplu gwaed. Daeth y grŵp i'r casgliad bod mesur statws egni a phrotein tuag at ddiwedd bechiogrwydd yn ddefnyddiol iawn er mwyn mireinio'r diet.
- Mae rheoli parasitiaid yn hanfodol ar gyfer iechyd a chynhyrchiant y ddiadell.
- Mae angen mynd i'r afael ag elfennau hybrin pob diadell yn unigol gan fod archwiliadau wedi dangos amrywiaeth sylweddol rhwng ffermydd.


Gweminarau

Dyma enghraifft o'r gweminarau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Rheoli'r oen sy'n tyfu – 05/05/2020

Yn ystod y weminar hon, by Lesley Stubbings yn trafod disgwyliadau o ran twf wŷn hyd at ddiddynf. Fel arbenigwr defaid annibynnol, bu Lesley yn canolbwyntio ar effaith rheoli llyngyr ar gyfraddau twf ac ansawdd y borfa. Roedd 115 o wylwyr unigryw yn bresennol yn ystod y weminar hon. Cliciwch [yma](#) i wyllo.

Mae'r siart yma'n dangos rhaniad o'r mynychwyr yn ôl rhyw.



Effeithlonrwydd godro: mwy o laeth mewn llai o amser – 24/6/2020

Yn ystod y weminar hon, bu Tom Greenham o Advanced Milking yn egluro sut i asesu lefelau effeithlonrwydd laeth, sut i wella effeithlonrwydd, yn ogystal â darparu gwybodaeth am ganfyddiadau prosiect ymchwil diweddar a gwblhawyd gan Advance Milking ar lefelau effeithlonrwydd godro arferol yng Nghymru a gweddill y DU. Roedd y weminar hon yn un o bum mewn cyfres o weminarau laeth dros amser cinio, ac roedd 17 o wylwyr unigryw yn bresennol.

Cliciwch [yma](#) i wyllo.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau Technol a Gyhoeddwyd:

CYNHYRCHU CIG OEN A CHYMRU: ÔL TROED AMGYLCHEDDOL HOLISTAIDD

RHAGOLYGN TECHNOLEGOL AR GYFER CYNHYRCHEDD UNEDAU DOFEDNOD DODWY

STRATEGAETHAU A THECHNOLEGAU I SICRHAU LLAI O GLOFFNIYMHLLITH GWARTHEG

MAE ANGEN DAU MEWN TANGO – PROFION GENOMIG AR WARTHEG BENYW

DYFODOL TECHNOLEGAU AR GYFER FFRWYTHLONDEB GWARTHEG AC IECHYD LLOI

FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR GYNHYRCHIANT DIADELLOEDD DEFAID

BRIDIO WŷN BENYW

SGORIO LLENWAD RWMEN I FONITRO IECHYD MEWN BUCHOD LLAETH

PESGI BIFF GAN DDEFNYDDIO CNYDAU A DYFIR GARTREF

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

DIGORNIO LLOI



YMWRTHEDD I ANTHELMINITIGAU AR FFERMYDD DEFAID



YMOSODIAD CLÊR CHWYTHU (CLEFYD PRYFED AR Y CROEN, CYNRHON)



CLAFR DEFAID



Cliciwch [yma](#) i fynd i'r wefan.

Cyrsiau Hyfforddi

Enw'r Cwrs	Nifer yr unigolion a hyfforddwyd yn ystod y cyfnod hwn
DIY AI	19
Defnyddio Meddyginiaeth Filfeddygol yn Ddiogel	10
Defnyddio Alwminiwm Ffosffad ar gyfer Rheoli Fertebrataid	9
Trimio Traed Gwartheg	9
Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel	7

